Safon gwasanaeth: Gwaith Trwsio

Datganiad

"Mae Grŵp Cynefin yn darparu gwasanaeth trwsio tai ac yn ymrwymo i ddarparu eiddo sydd mewn cyflwr da, sy'n saff ac yn ddiogel".

Byddwn yn:-

- darparu gwasanaeth trwsio argyfwng 24 awr 365 diwrnod y flwyddyn drwy ein llinell gymorth

- anelu i gwblhau pob cais am waith trwsio -
    - Argyfwng o fewn 24 awr
    - Brys o fewn 7 diwrnod
    - Llai o frys o fewn 21 diwrnod
    - Angenrheidiol o fewn 6 mis

  a byddwn yn mesur ein perfformiad yn cyrraedd y targedau amser hyn.

  (Mae diffiniadau ac enghreifftiau o'r gwaith sydd ymhob categori yn ein Llawlyfr Tenantiaid neu ar wefan y Gymdeithas)

- amgáu cerdyn gwerthuso rhagdaledig gyda phob archeb gwaith, ac ymateb i bob cerdyn gwerthuso sy'n nodi anfodlonrwydd cyn pen 10 diwrnod gwaith.

- archwilio o leiaf 10% o'r gwaith trwsio er mwyn gwylio ansawdd a gwerth am arian

- disgwyl i gontractwyr, gweithlu'r Gymdeithas a staff ddilyn ein cod ymddygiad a gwisgo cerdyn adnabod pan yn ymweld ag eiddo

- cyhoeddi canlyniadau ein perfformiad yn cyrraedd y safonau hyn yn ein cylchlythyr tenantiaid.